LANEM11

Pennu a gweithredu amcan a thargedau sefydliadol ar gyfer perfformiad amgylcheddol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn disgrifio'r sgiliau a'r wybodaeth sydd yn ofynnol i bennu a gweithredu amcanion a thargedau sefydliadol ar gyfer perfformiad amgylcheddol. Mae'r safon yn edrych ar nodi amcanion a thargedau sefydliadol a datblygiad cynllun i weithredu'r rhain.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer:

- Rheolwr â chyfrifoldeb dros reolaeth a/neu gynaliadwyedd amgylcheddol
- Perchennog/rheolwr busnes sydd yn ceisio gwella perfformiad amgylcheddol y sefydliad
- Unigolyn â briff penodol i adolygu perfformiad amgylcheddol
- Cydlynydd systemau rheolaeth amgylcheddol neu gyfwerth
- Ymgynghorydd sydd yn rhoi cyngor amgylcheddol.

Mae'r safon hon yn cynnwys pennu a gweithredu amcanion a thargedau gan ddefnyddio arfer da.

Mae'n cynnwys nodi, mesur a chyfathrebu ymarfer presennol a chyfathrebu â phawb sydd yn gysylltiedig â gweithredu amcan a thargedau sefydliadol ar gyfer perfformiad amgylcheddol.

Mae angen i'r rheiny sydd yn gysylltiedig â phennu a gweithredu amcanion a thargedau sefydliadol ar gyfer perfformiad amgylcheddol fod yn gysylltiedig â chyfrifiadau carbon ac Asesiadau Cylch Bywyd eu cynnyrch, eu gwasanaethau a'u gweithgareddau.  Bydd hyn yn cynnwys asesu ôl troed carbon eu cynnyrch a'u gwasanaethau, yn ogystal â gwneud eu penderfyniadau ynghylch pwy i brynu adnoddau oddi wrthynt, trwy werthuso eu cyfrifiadau cyfalaf naturiol a'u cyfrifiadau carbon.  Mae angen i sefydliadau fod yn atebol am y ffordd y maent yn rheoli eu heffaith ar yr amgylchedd, mae angen iddynt ddod yn fwy cynaliadwy.  Mae angen i'r sefydliad edrych ar eu heffaith o ran carbon ar lefel fyd-eang yn ogystal â lefel leol.Bydd hyn hefyd yn cynnwys asesu'r effaith

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol i bennu a sefydlu amcanion a thargedau sefydliadol ar gyfer perfformiad amgylcheddol
2. Pennu amcanion a thargedau sydd yn gysylltiedig ag agweddau amgylcheddol arwyddocaol y sefydliad
3. Pennu'r risgiau i'r sefydliad a risg y sefydliad i'r amgylchedd
4. Cadarnhau bod yr amcanion a'r targedau sefydliadol yn cyd-fynd â pholisi amgylcheddol sefydliadol, deddfwriaethau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol a gofynion rheoliadol eraill
5. Cadarnhau bod amcanion a thargedau sefydliadol yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, bod cyfrifoldeb wedi ei neilltuo ac yn gaeth i amser
6. Cyfathrebu amcan a thargedau sefydliadol ar gyfer perfformiad amgylcheddol gyda rhanddeiliaid perthnasol
7. Gweithredu amcanion a thargedau sefydliadol ar gyfer perfformiad amgylcheddol
8. Cadarnhau bod mesurau gwerthuso a reoli yn cael eu rhoi ar waith i fonitro'r amcanion a'r targedau sefydliadol ar gyfer y perfformiad amgylcheddol

Pennu a gweithredu amcan a thargedau sefydliadol ar gyfer perfformiad amgylcheddol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*